



Teitl	Cytundeb Cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a LACORS Rheoliad Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 fel y'u diwygiwyd
Dyddiad:	Ebrill 2014
Fersiwn:	Fersiwn 1
Dyddiad i'w adolygu:	Ebrill 2019
Ysgrifennwyd Gan:	Louise Bailey
Noddir gan:	Stephen Attwood

Cytunwyd gan

.....(LACORS)

.....(CNC)

Yr hyn rydym am ei gyflawni drwy gydweithio ar benderfyniadau trwyddedu

- Diogelu'r amgylchedd a'r cyhoedd mewn perthynas â gweithgareddau a ragnodir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
- Dull sy'n seiliedig ar risg o drwyddedu ac ymdrin â cheisiadau am ragor o wybodaeth.
- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gydberthynas rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Rolau a Chyfrifoldebau (pob sefydliad sy'n cymryd rhan)

- Cyfoeth Naturiol Cymru yw un o'r rheoleiddwyr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr ac mae'n gyfrifol am drwyddedu gweithgareddau diwydiannol penodol a gweithgareddau penodol sy'n cynnwys rheoli gwastraff a nodir yn y Rheoliadau.
- O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am fesurau rheoliadol sy'n cyfrannu at y gwaith o weithredu pob Cyfarwyddeb Ewropeaidd berthnasol.
- O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am drwyddedu gweithgareddau diwydiannol penodol a rhai gweithgareddau atodol sy'n cynnwys rheoli gwastraff lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu cyfarwyddo i wneud hynny. At ddibenion y cytundeb cydweithio hwn, ystyr awdurdod lleol yw unrhyw awdurdod lleol lle y gwneir gwaith diogelu'r amgylchedd (h.y. Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Bwrdeistref, Cynghorau Dosbarth Metropolitaidd, Bwrdeistrefi Llundain ac awdurdodau unedol eraill).
- O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am fesurau rheoliadol sy'n cyfrannu at y gwaith o weithredu agweddau penodol ar rai Cyfarwyddebau Ewropeaidd.
- Mae LACORS yn cynrychioli Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr a bydd yn cydgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r gweithgareddau a ganiateir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Sut y byddwn yn cydweithio

Yn gyffredinol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol.

Yn benodol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud y canlynol:

- Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol drwy LACORS wrth ddatblygu'r meini prawf risg a'r rheolau y mae angen cydymffurfio â hwy ar gyfer trwyddedau safonol.
- Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol ynghylch ceisiadau am drwyddedau pwrpasol.
- Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol ynghylch pob cais gan weithredwyr a phob amrywiad a ysgogwyd gan reoleiddiwr sy'n gofyn am newid sylweddol¹, neu os ydym o'r farn y dylid ymgynghori â hwy am ryw reswm arall.
- Ystyried sylwadau a geir o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno.

¹ Mae newid sylweddol yn un a allai gael effeithiau negyddol sylweddol ar yr amgylchedd neu'r cyhoedd.

- Rhoi gwybod i Awdurdod Lleol pan gyflwynir rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'w buddiannau, yn ein barn ni.
- Pan drosglwyddir y cyfrifoldeb rheoliadol am weithgaredd o Cyfoeth Naturiol Cymru i Awdurdod Lleol (gan Gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol), bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn gynted â phosibl, ac fel arfer o fewn 15 diwrnod gwaith, yn rhoi'r holl fanylion a chofnodion perthnasol i'r Awdurdod Lleol a chytuno ar drefniadau trosglwyddo eraill sydd eu hangen, er mwyn galluogi'r rheoleiddiwr newydd i gyflawni eu swyddogaethau yn llawn.
- Ceisio gwella'r trefniadau cydweithio presennol ar sail profiad.

Yn benodol, bydd Awdurdodau Lleol yn gwneud y canlynol:

- Ymateb ynghylch materion sy'n rhan o'u cylch gorchwyl drwy gyflwyno sylwadau clir a chryno sy'n nodi a ddylid cymeradwyo'r cais, ei gymeradwyo gyda newidiadau penodol neu ei wrthod, yn eu barn hwy.
- Ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Pan gyhoeddir cyfarwyddyd yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio gweithgaredd yn Rhan B i Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd Awdurdodau Lleol, cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 15 diwrnod gwaith, yn gwneud y canlynol:
 - a) rhoi'r holl bapurau priodol a ddelir sy'n ymwneud â rheoleiddio'r gweithgaredd hwnnw i'r swyddog perthnasol yn Cyfoeth Naturiol Cymru;
 - b) cytuno ar drefniadau trosglwyddo eraill sydd eu hangen, a allai olygu sesiwn briffio wyneb yn wyneb neu dros y ffôn neu ymweld â'r safle ar y cyd.